# MAE'N DECHRAU EDRYCH YN DEBYG IAWN I'R NADOLIG!

**Bydd hwyl a sbri yn dod i'r Rhyl ar ôl i'r cyngor tref gamu ymlaen i helpu pobl ifanc i ddathlu'r wyl mewn ffordd wahanol iawn.**

O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae digwyddiadau a oedd ar y gweill ar gyfer mis Rhagfyr wedi eu canslo, gan gynnwys parti plant a drefnwyd gan Gyngor Tref y Rhyl.

Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Fel rheol, mae'r Cyngor Tref yn cefnogi neu'n cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau am ddim o fis Ionawr hyd at ddiwedd y flwyddyn.
Fel rheol, o gwmpas yr amser hwn, rydym yn edrych ymlaen at weld goleuadau'r Nadolig Hamdden Sir Ddinbych yn mynd ymlaen, cerddoriaeth Christmas Pops a'n parti plant ni Rockin' Rhyl. Ond mae deddfwriaeth yn golygu na all unrhyw beth gael ei gynnal nawr, yn ddealladwy."

Cynhaliwyd Rockin' Rhyl am y tro cyntaf y llynedd gyda channoedd o blant yn ymgasglu yn neuadd y dref am brynhawn am ddim o gerddoriaewth, hud a lledrith, adloniant a gemau. Roedd popeth yn barod ar gyfer parti 2020 nes cafodd popeth ei ganslo. Ond mae cynghorwyr wedi canfod ateb i achub y dydd.

"Rydym yn deall, ac yn cefnogi, yr angen i roi diogelwch yn gyntaf, ond roedd cynghorwyr y dref yn drist o feddwl y byddai plant ifanc yn colli allan ar hwyl y Nadolig eleni", esboniodd y Cynghorydd Chard. "Roedd parti'r llynedd yn llwyddiant mawr a rhoddodd brynhawn o adloniant am ddim i blant y Rhyl. Ond nawr, mae'n amhosibl gwneud hynny ac mae llawer o'n hoff ddigwyddiadau wedi eu canslo.

"Roeddem yn benderfynol nad oeddem am gael ein trechu, fodd bynnag, ac yn meddwl, os na all y plant ddod i'n parti ni, yna byddwn yn mynd â'r parti atyn nhw. Rydym wedi gweithio gyda diddanwr i wneud ffilm parti Nadolig y gall y plant ei gwylio, a chymryd rhan ynddi, yn eu cartref."

-Mwy-

Mae’r ffilm awr o hyd, gyda ffefryn y plant Dozy Dave, yn cynnwys triciau hud a lledrith, cartwn, jôcs, canu ac ymweliad gan rywun pwysig iawn.

Bydd y ffilm yn mynd yn fyw ar sianel YouTube y Cyngor Tref o’r 1af Rhagfyr a bydd yno drwy gydol y mis gan roi cyfle i’r plant wylio a chael eu diddanu faint bynnag o weithiau ag yr hoffent. Bydd dolenni ar gael hefyd ar borthiant Facebook, Twitter, ac y Cyngor Tref.

"Mae’r plant wedi gorfod delio gyda llawer iawn eleni, ac nid yw bob amser yn hawdd esbonio iddyn nhw pam na chânt fynd allan, gweld eu frindiau a mynd i’r ysgol. Nid oeddem eisiau i’r Nadolig fod yn gyfnod heb unrhyw hud ac felly dyma’r peth gorau y gallwn ei wneud.

"Hyd yn oed yn well, nid plant y Rhyl yn unig a fydd yn elwa, ond bydd plant ymhob-man yn gallu cymryd rhan yn yr hwyl o ddiogelwch eu cartref eu hunain. Rydym yn gobeithio bod y ffilm yn rhoi ychydig o hud a lledrith i’r plant a bod yn rhywbeth i edrych ymlaen ato mewn cyfnod sy’n mynd i fod yn wahanol iawn o ran dathlu’r Nadolig,” ychwanegodd y Cynghorydd Chard.

**Diwedd**